

 <p>1 "Anfonodd Duw yr angel Gabriel at ferch ifanc o'r enw Mair." Luc 1:26-27</p>	<p>2 "Felly dyma'r angel yn dweud wrthi, 'Paid bod ofn, Mair. Mae Duw wedi dewis dy fendithio d'i'n fawr.'" Luc 1:30</p> 	<p>3 ★ "Rwyf t'i'n mynd i fod yn feichiog a byddi d'i'n cael mab. Iesu yd'r enw rwyf i'w roi iddo." Luc 1:31</p> 	<p>4 "Bydd yn ddyn pwysig iawn, a bydd yn cael ei alw'n Fab y Duw Goruchaf." Luc 1:32</p> 
<p>5 ★ "A dyma Mair yn dweud, 'Dw i eisiau gwasanaethu'r Arglwydd Dduw. Felly gad i beth rwyf wedi'i ddweud ddod yn wir.'" Luc 1:38</p>	<p>6 "Dyma Cesar Awgustws yn gorchymyn cynnal cyfrifiad drwy'r Ymerodraeth Rufeinig i gyd." Luc 2:1</p> 	<p>7 "Roedd pawb yn mynd adre i'r trefi lle cawson nhw eu geni, i gofrestru ar gyfer y cyfrifiad." Luc 2:3</p>	<p>8 "Gan fod Joseff yn perthyn i deulu'r Brenin Dafydd, aeth i gofrestru yn Bethlehem, tref Dafydd. Aeth yno gyda Mair." Luc 2:4-5</p> 
<p>9 "Tra oedden nhw yno daeth yn amser i'r babi gael ei eni, a dyna lle cafodd ei phlentyn cyntaf ei eni." Luc 2:6-7</p> 	<p>10 ★ "Dyma hi'n lapio cadachau geni yn ofalus amdano, a'i osod i orwedd mewn cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid. Doedd dim llety iddyn nhw ar os ynddo." Luc 2:7</p>	<p>11 "Yn ardal Bethlehem roedd bugeiliaid allan drwy'r nos yn yr awyr agored yn gofalu am eu defaid." Luc 2:8</p> 	<p>12 "Dyma nhw'n gweld angel, ac roedd ysblander yr Arglwydd fel golau llachar o'u cwmpas nhw." Luc 2:9</p> 
<p>13 "Dyma'r angel yn dweud, 'Peidiwch bod ofn. Mae geni i newyddion da i chi!'" Luc 2:10</p> 	<p>14 "Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, yn Bethlehem (tref y Brenin Dafydd)." Luc 2:11</p> 	<p>15 "Dyma sut byddwch chi'n ei nabod e: wedi'i lapio mewn cadachau ac yn gorwedd mewn preseb." Luc 2:12</p> 	<p>16 ★ "Roedd fel petai holl angylion y nefoedd yno yn addoli Duw! 'Goponiant i Dduw yn y nefoedd uchaf, heddwch ar y ddaear islaw, a bendith Duw ar bobl.'" Luc 2:13-14</p>

# Y Daith i Fethlehem un diwrnod ar y tro

<p>17 "Dyma'r Bugeiliaid yn dod o hyd i Mair a Joseff a'r babi bach yn gorwedd mewn preseb." Luc 2:16</p> 	<p>18 "Aeth y bugeiliaid yn ôl i'w gwaith gan ganmol a moli Duw am bopeth roedden nhw wedi'i weld a'i glywed." Luc 2:20</p> 	<p>19 ★ "Ar ôl hynny, daeth gwŷr doeth o wledydd y dwyrain i Jerwsalem i ofyn, 'Ble mae'r un sydd newydd gael ei eni yn frenin yr Iddewon?'" Mathew 2:1-2</p>	<p>20 "Dyma'r seren yn mynd o'u blaen ... Roedden nhw wrth eu bodd!" Mathew 2:9-10</p> 
<p>21 "Pan aethon nhw i mewn i'r fŷ ... dyma nhw'n disgyn ar eu gliniau o'i flaen a'i addoli." Mathew 2:11</p> 	<p>22 "Yna dyma nhw'n agor eu paciau a rhoi anrhegion gwerthfawr iddo - aur a thus a myrr." Mathew 2:11</p> 	<p>23 ★ "Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni, mab wedi cael ei roi i ni. A bydd yn cael ei alw yn Dywysog heddwch." Eseaia 9:6</p>	<p>24 "Ydy, mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol." Ioan 3:16</p> 